



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 3002 (Cy. 259)

2007 No. 3002 (W. 259)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru)
(Diwygio) 2007**

**The Bluetongue (Wales)
(Amendment) Order 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003, O.S. 2003/326 (Cy.47) ("Gorchymyn 2003"), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75 sy'n gosod darpariaethau penodol ar reoli a difa'r tafod glas (y dafod las) (OJ Rhif L327, 22.12.2000, t. 74).

This Order amends the Bluetongue (Wales) Order 2003, S.I 2003/326 (W.47) ("the 2003 Order"), which implements Council Directive 2000/75 laying down specific provisions for the control and eradication of bluetongue (OJ No L327, 22.12.2000, p 74).

Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn diwygio'r diffiniad o "Prif Swyddog Milfeddygol".

Paragraph 1 of the Schedule amends the definition of "Chief Veterinary Officer".

Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn diwygio erthygl 8 o Orchymyn 2003 drwy hepgor y darpariaethau sy'n ymwneud â difa, claddu neu waredu carcasau.

Paragraph 2 of the Schedule amends article 8 of the 2003 Order by omitting the provisions relating to destruction, burial or disposal of carcasses.

Mae paragraff 3 o'r Atodlen yn mewnosod erthygl newydd 9(1)(d) ynglyn â phwerau cigydda.

Paragraph 3 of the Schedule inserts a new article 9(1)(e) containing slaughter powers.

Mae paragraff 4 o'r Atodlen yn rhoi erthyglau newydd 10 i 12B am barthau sydd i'w datgan gan Weinidogion Cymru os cadarnheir bod y tafod glas (y dafod las) mewn mangre yng Nghymru yn lle erthyglau 10 i 12 yng Ngorchymyn 2003.

Paragraph 4 of the Schedule replaces articles 10 to 12 of the 2003 Order with new provisions, articles 10 to 12B, concerning zones to be declared by the Welsh Ministers in the event of the confirmation of bluetongue.

Mae erthygl 10 newydd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â pharthau rheoli sydd wedi eu canoli o gwmpas man brigo ac iddynt radiws o 20 cilometr. (Diffinnir y term "man brigo" yn erthygl newydd 10(8)). Caiff Gweinidogion Cymru estyn neu leihau maint parth rheolaeth. Gwaherddir symud anifeiliaid i fangre neu o fangre mewn parth dan reolaeth ac eithrio yn unol â thwydded a roddir gan arolygydd.

New article 10 contains provisions relating to control zones with a radius of 20 kilometres centred on the outbreak point. (The term "the outbreak point" is defined in new article 10(8)). The Welsh Ministers may extend or reduce the size of a control zone. The movement of animals to or from premises in a control zone is prohibited except in accordance with a licence granted by an inspector.

Mae erthygl newydd 11 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â pharthau gwarchod a pharthau gwyliadwriaeth a ddatgenir gan Weinidogion Cymru. Gwaherddir symud anifeiliaid o barth gwarchod neu o barth gwyliadwriaeth ac eithrio yn unol â thrywydded a roddir gan arolygydd.

Mae erthygl 12 newydd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau arolygwyr mewn parthau gwarchod a pharthau gwyliadwriaeth.

Mae erthygl 12A newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgan parthau rheolaeth, gwarchod neu wyliadwriaeth os bydd y tafod glas (y dafod las) yn brigo yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Mae erthygl 12B newydd yn cynnwys darpariaethau am ddatgan parthau.

Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

New article 11 contains provisions relating to protection zones and surveillance zones declared by the Welsh Ministers. The movement of animals out of a protection zone or surveillance zone is prohibited except in accordance with a licence granted by an inspector.

New article 12 contains provisions relating to the powers of inspectors in protection and surveillance zones.

New article 12A enables the Welsh Ministers to declare control, protection or surveillance zones in the event of an outbreak of bluetongue in Scotland, England or Northern Ireland. New article 12B contains provisions about declarations of zones.

No regulatory impact assessment has been prepared for this Order as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

2007 Rhif 3002 (Cy. 259)

2007 No. 3002 (W. 259)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru)
(Diwygio) 2007**

**The Bluetongue (Wales)
(Amendment) Order 2007**

Gwnaed 18 Hydref 2007
Yn dod i rym am 4:45p.m.
18 Hydref 2007

Made 18 October 2007
Coming into force 4:45p.m. on
18 October 2007

Mae'r Gorchymyn yn darparu at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriad at Benderfyniad y Comisiwn 2005/393/EC ar barthau gwarchod a gwyliadwriaeth mewn perthynas â'r tafod glas a chymhwyso amodau i symudiadau o'r parthau hyn neu i'r parthau hyn(2) fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

This Order makes provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the reference to Commission Decision 2005/393/EC on protection and surveillance zones in relation to bluetongue and conditions applying to movements from or through these zones(2) to be construed as a reference to that instrument as amended from time to time.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(3) ac adrannau 1, 8(1), 17(1) a 35 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(4) ac a freiniwyd bellach ynddynt(5).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(3) and sections 1, 8(1), 17(1) and 35 of the Animal Health Act 1981(4) and now vested in them(5).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn-
 - (a) yw Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2007;
 - (b) mae'n gymwys o ran Cymru; ac
 - (c) daw i rym am 4:45 p.m. 18 Hydref 2007.

Citation and commencement

1. This Order-
 - (a) is entitled the Bluetongue (Wales) (Amendment) Order 2007;
 - (b) applies in relation to Wales; and
 - (c) comes into force at 4:45p.m. on 18 October 2007.

(1) 1972, p.68.

(2) OJ L 130, 24.5.2005, t.22, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2007/28/EC, OJ L8, 13.1.2007, t.51.

(3) Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddol 2006 (p.51).

(4) 1981, p.22.

(5) Trosglwyddwyd swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(1) 1972, c.68.

(2) OJ L 130, 24.5.2005, p.22, as last amended by Commission Decision 2007/28/EC, OJ L8, 13.1.2007, p.51.

(3) Paragraph 1A was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

(4) 1981 c.22.

(5) Functions transferred to the National Assembly for Wales by SI 1999/672 and SI 2004/3044. By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers.

Diwygio

2. Mae Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003 wedi ei ddiwygio yn unol â'r Atodlen.

Amendment

2. The Bluetongue (Wales) Order 2003 is amended in accordance with the Schedule.

Rhodri Morgan AC/AM

Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru

18 Hydref 2007

First Minister for Wales, one of the Welsh Ministers

18 October 2007

YR ATODLEN

DIWYGIO GORCHYMYN Y TAFOD GLAS (CYMRU) 2003

Erthygl 2

1. Yn erthygl 2 o'r diffiniad o "Prif Swyddog Milfeddygol" ("*Chief Veterinary Officer*") yn lle'r geiriau "Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig" rhodder y geiriau "a benodir gan Weinidogion Cymru".

2. Hepgorer erthygl 8(2)(c)

3. Yn is-baragraff 9(1)(ch) yn lle "." ar ddiwedd yr is-baragraff rhodder ";" a mewnosoder is-baragraff newydd (d) fel a ganlyn-

"(d)ei gwneud yn ofynnol i gigydda unrhyw anifail sydd wedi ei effeithio gan y clefyd neu unrhyw anifail y mae'n amau ei fod wedi ei effeithio gan y clefyd neu ei fod wedi bod yn agored i gael ei heintio gan y clefyd."

4. Yn lle erthyglau 10, 11 a 12 rhodder-

"Mesurau pan gaiff y clefyd ei gadarnhau

10.-(1) Os bydd y Prif Swyddog Meddygol yn cadarnhau bod y tafod glas ar dir ac adeiladau yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan bod ardal yn barth rheolaeth.

(2) Rhaid i barth rheolaeth a ddatgenir o dan baragraff (1)-

- (a) gael ei ganoli ar y man brigo; a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), fod â radiws o 20 cilometr.

(3) Pan fo'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan parth rheolaeth a phan fo ardal y parth hwnnw yn cynnwys tir yn Lloegr, rhaid iddynt ddatgan parth o'r rhan honno o'r ardal ag sydd yng Nghymru.

(4) Caiiff Gweinidogion Cymru estyn neu leihau ardal parth rheolaeth gan roi sylw i'r ffactorau-

- (a) epidemiolegol;
- (b) daearyddol;
- (c) ecolegol; neu
- (ch) meteorolegol,

sydd yn eu barn hwy yn berthnasol.

(5) Ni chaiff neb symud anifail i dir ac adeiladau neu o dir ac adeiladau mewn parth rheolaeth, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddir gan arolygydd.

(6) Ni chaiff arolygydd ond rhoi trwydded o dan baragraff (5) mewn perthynas â symudiad a

SCHEDULE

AMENDMENTS TO THE BLUETONGUE (WALES) ORDER 2003

Article 2

1. In article 2 in the definition of "Chief Veterinary Officer" ("*Prif Swyddog Milfeddygol*") substitute for the words "of the Department for Environment, Food and Rural Affairs" the words "appointed by the Welsh Ministers".

2. Omit article 8(2)(c).

3. In paragraph 9(1)(d) replace "." at the end of the subparagraph with ";" and insert new subparagraph (e) as follows-

"(e)require the slaughter of any animal which is affected by disease or which he or she suspects may be affected by disease or have been exposed to infection."

4. For articles 10, 11 and 12 substitute-

"Measures when disease is confirmed

10.-(1) On confirmation by the Chief Veterinary Officer of bluetongue on premises in Wales, the Welsh Ministers must declare an area to be a control zone.

(2) A control zone declared under paragraph (1) must-

- (a) be centred on the outbreak point; and
- (b) subject to paragraphs (3) and (4), have a radius of 20 kilometres.

(3) Where this article requires the Welsh Ministers to declare a control zone and the area of that zone would include land in England, they must declare a zone of such part of that area as is in Wales.

(4) The Welsh Ministers may extend or reduce the area of a control zone having regard to such-

- (a) epidemiological;
- (b) geographical;
- (c) ecological; or
- (d) meteorological,

factors as they consider relevant.

(5) No person may move an animal to or from premises in a control zone, except in accordance with a licence granted by an inspector.

(6) An inspector may only grant a licence under paragraph (5) in respect of a movement which is

ganiateir o dan Benderfyniad y Comisiwn.

(7) Rhaid i delerau ac amodau'r drwydded honno fod gyfryw ag i sicrhau bod y symudiad yn cael ei wneud yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn.

(8) Yn yr erthygl hon-

(a) ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2005/393/EC ar barthau gwarchod a gwyliadwriaeth mewn perthynas â'r tafod glas ac amodau sy'n gymwys i symudiadau o'r parthau hyn neu drwyddynt, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; a

(b) ystyr "y man brigo" ("the breakout point") yw'r rhan o'r tir a'r adeiladau sydd wedi ei heintio o le mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid mesur y parth rheolaeth.

Cyfyngiadau mewn parthau gwarchod a gwyliadwriaeth

11.-(1) Pan fo'r Prif Swyddog Milfeddygol yn cadarnhau bod y tafod glas ar dir ac adeiladau yng Nghymru-

(a) o ran Gweinidogion Cymru-

(i) rhaid iddynt ddatgan ardal yn barth gwarchod, a

(ii) cânt ddatgan ardal yn barth gwyliadwriaeth; a

(b) mae paragraffau (2) i (5) yn gymwys i'r parthau hynny.

(2) Ni chaiff neb symud anifail allan o'r parth gwarchod neu'r parth gwyliadwriaeth, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddir gan arolygydd.

(3) Ni chaiff arolygydd ond rhoi trwydded o dan baragraff (2) mewn perthynas â symudiad a ganiateir o dan Benderfyniad y Comisiwn.

(4) Rhaid i delerau ac amodau'r drwydded honno fod gyfryw ag i sicrhau bod y symudiad yn cael ei wneud yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn.

(5) Pan fo parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth yn cwmpasu ardal sy'n cynnwys tir yn Lloegr, rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan parth gwarchod a chânt ddatgan parth gwyliadwriaeth o'r rhan honno o'r ardal sydd yng Nghymru.

(6) Yn yr erthygl hon, mae i "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yr un ystyr ag sydd iddo yn erthygl 10.

Pwerau arolygwyr a swyddogion mewn parthau gwarchod a gwyliadwriaeth

12.-(1) Pan fo parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth wedi ei ddatgan o dan erthygl 11, mae gan arolygwyr milfeddygol a swyddogion a awdurdodir gan Weinidogion Cymru y pwerau

permitted under the Commission Decision.

(7) The terms and conditions of such a licence must be such as to ensure that the movement is made in accordance with the Commission Decision.

(8) In this article-

(a) "the Commission Decision" means Commission Decision 2005/393/EC on protection and surveillance zones in relation to bluetongue and conditions applying to movements from or through these zones, as amended from time to time; and

(b) "the outbreak point" means the part of the infected premises from which the Welsh Ministers consider the control zone should be measured.

Restrictions in protection and surveillance zones

11.-(1) On confirmation by the Chief Veterinary Officer of bluetongue on premises in Wales-

(a) the Welsh Ministers-

(i) must declare an area to be a protection zone, and

(ii) may declare an area to be a surveillance zone; and

(b) paragraphs (2) to (5) apply to such zones.

(2) No person may move an animal out of the protection zone or the surveillance zone, except in accordance with a licence granted by an inspector.

(3) An inspector may only grant a licence under paragraph (2) in respect of a movement which is permitted under the Commission Decision.

(4) The terms and conditions of such a licence shall be such as to ensure that the movement is made in accordance with the Commission Decision.

(5) Where a protection zone or a surveillance zone would cover an area which includes land in England, the Welsh Ministers must declare a protection zone and may declare a surveillance zone of such part of the area as is in Wales.

(6) In this article, "the Commission Decision" has the same meaning as it has in article 10.

Powers of inspectors and officers in protection and surveillance zones

12.-(1) Where a protection zone or a surveillance zone has been declared under article 11, veterinary inspectors and officers authorised by the Welsh Ministers have the powers they have under article

sydd ganddynt o dan erthygl 9 o ran tir ac adeiladau o fewn y parth gwarchod neu'r parth gwyliadwriaeth.

(2) Hefyd, caiff arolygydd milfeddygol-

- (a) ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd tir ac adeiladau mewn parth gwarchod neu geidwad unrhyw anifail ar y dir ac adeiladau hynny ganiatáu brechu unrhyw anifail a gedwir yno; a
- (b) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd neu i'r ceidwad-
 - (i) cadw'r anifeiliaid i'w defnyddio yn anifeiliaid rhybuddio, neu
 - (ii) caniatáu gadael i anifeiliaid rhybuddio ddod i'r tir ac adeiladau hynny.

Clefyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

12A. Os bydd y Prif Swyddog Meddygol yn cadarnhau bod y tafod glas ar dir ac adeiladau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, caiff Gweinidogion Cymru ddatgan bod ardal yn barth rheolaeth, yn barth gwarchod neu'n barth gwyliadwriaeth yng Nghymru.

Datgan parthau

12B. O ran datganiadau parthau rheolaeth, parthau gwarchod a pharthau gwyliadwriaeth o dan erthyglau 10, 11 neu 12A-

- (a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;
- (b) caniateir eu diwygio gan ddatganiad pellach ar unrhyw adeg;
- (c) rhaid iddynt ddynodi hyd a lled y parth a ddatgenir; ac
- (ch)ni chaniateir eu dirymu ond drwy ddatganiad pellach."

5. Yn lle erthygl 14 rhodder --

"Dyletswyddau cyffredinol meddianwyr a cheidwaid

14.-(1) Onid awdurdoddir fel arall gan drwydded a ddyroddir gan arolygydd neu gan Weindogion Cymru, rhaid i feddiannydd tir ac adeiladau y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo a cheidwad unrhyw anifail ar y tir ac adeiladau hynny-

- (a) cydymffurfio â gofynion mewn hysbysiadau a gyflwynir iddo;
- (b) caniatáu i arolygydd fynd i'r tir ac adeiladau y cyfeirir atynt mewn hysbysiadau a gyflwynir iddo;
- (c) llunio a chadw unrhyw gofnodion y caiff arolygydd fynnu yn rhesymol eu llunio a'u cadw a dangos y cofnodion hynny i arolygydd ar ei gais;
- (ch)yमतal rhag difrodi unrhyw drapiau a

9 in respect of premises within the protection zone or the surveillance zone.

(2) A veterinary inspector may also-

- (a) require the occupier of premises in a protection zone or the keeper of any animal on such premises to allow the vaccination of any animal kept there; and
- (b) require the occupier or keeper-
 - (i) to retain animals for use as sentinel animals, or
 - (ii) to allow the introduction of sentinel animals onto those premises.

Disease in England, Scotland and Northern Ireland

12A. On confirmation by the Chief Veterinary Officer of bluetongue on premises in England, Scotland or Northern Ireland, the Welsh Ministers may declare an area to be a control zone, a protection zone or a surveillance zone in Wales.

Declarations of zones

12B. Declarations of control zones, protection zones and surveillance zones under articles 10, 11 or 12A-

- (a) must be in writing;
- (b) may be amended by further declaration at any time;
- (c) must designate the extent of the zone being declared; and
- (d) may only be revoked by further declaration."

5. For article 14 substitute--

General duties of occupiers and keepers

14.-(1) Unless otherwise authorised by a licence issued by an inspector or by the Welsh Ministers, an occupier of premises to which this Order applies and a keeper of any animal on such premises must-

- (a) comply with requirements in notices served on him or her;
- (b) allow an inspector to enter premises referred to in notices served upon him or her;
- (c) compile and maintain such records as an inspector may reasonably require and produce such records to an inspector on request;
- (d) refrain from damaging, interfering with

osodir i gasglu fectorau a rhag ymyrryd â hwy neu eu symud;

- (d) ymatal rhag difwyno, dileu neu dynnu unrhyw farc a wneir gan arolygydd milfeddygol o dan erthygl 9; a
- (dd) darparu unrhyw gymorth a gwybodaeth resymol ag y caiff arolygydd eu mynnu yn rhesymol at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau o dan y Gorchymyn hwn."

or removing any traps set for the collection of vectors;

- (e) refrain from defacing, obliterating or removing any mark made by a veterinary inspector under article 9; and
- (f) provide such reasonable assistance and information as an inspector may reasonably require for the purpose of carrying out his or her functions under this Order."

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W172/10/07

ON